# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy 2024/25

**Rhif Elusen: 1161120**

## 1. Crynodeb Gweithredol

Mae 2024/25 wedi bod yn flwyddyn brysur arall i Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy, gyda nifer o weithgareddau a digwyddiadau celf ac, yn ôl yr arfer, rydym ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi arian i ni. Mae hynny wedi ein helpu ni i barhau i gynnig gweithgareddau ymgysylltu, yn enwedig fan fod denu arian yn mynd yn anoddach wrth i ddarparwyr grantiau ymateb i bwysau economaidd.

Er mwyn gwneud y mwyaf o effaith, mae'r elusen wedi gweithio'n agos gyda Venue Cymru a Thîm Diwylliant Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae ein prosiectau wedi'u hariannu gan gymysgedd o roddion a grantiau, a'r prif feysydd gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon oedd:

- Cymerwch Ran yn Venue Cymru
- Python ar y Prom
- Straeon o'r Archif
- Dyfarniad CultureStep
- Serameg er Lles
- Canu ac Ioga

Mae'n amserol, ac yn briodol, i ddiolch i bawb am eu cefnogaeth barhaus i Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy.

Diolch yn fawr iawn am ein cefnogi dros y flwyddyn ddiwethaf.
Edrychwn ymlaen at eich cefnogaeth dros y flwyddyn i ddod.



## Cynnwys

**1. Crynodeb Gweithredol** ............................. 1

2. Cymerwch Ran 2025 .................................. 3

3. Python ar y Prom ...................................... 4

4. Grant Cronfa Addysg Thomas Howell......... 5

5. Serameg er Lles.......................................... 8

6. Cyllid CultureStep .................................... 10

7. Gŵyl Teuluoedd Creadigol ....................... 10

8. Canu ac Ioga............................................. 12

9. Cronfa Grantiau Bach .............................. 12

10. Amdani! Conwy ...................................... 14

11. Rhoddion ................................................ 15

12. Cyfrifon .................................................. 16

13. Diolchiadau ............................................ 19

## 2. Cymerwch Ran 2025




Ar 11 ac 12 Ionawr, dychwelodd yr ŵyl gelf, llenyddiaeth a gwyddoniaeth enfawr i Venue Cymru, wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Cymerodd 10,000 o blant, pobl ifanc ac oedolion ran mewn 108 gweithdy, o greu modelau gydag Aardman Animation i ddosbarthiadau hyfforddiant Jedi, creu printiau canoloesol a defnyddio goleuadau theatr technegol. Daeth BBC Wales ac S4C â sioeau Rownd a Rownd, Stwnsh, Deian a Loli a Sioe Cyw, a bu i Noddwr Cymerwch Ran, darlunydd llyfrau Harry Potter, Jonny Duddle, arwain ei sesiynau tynnu lluniau hynod boblogaidd.

Unwaith eto, rhoddodd Cymerwch Ran gyfle i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau celf, gwyddoniaeth a llenyddol gwahanol – gweithgareddau na fyddan nhw'n eu cael yn yr ystafell ddosbarth arferol.



I wish Take pART had existed when I was a kid growing up in North Wales: I could have tried so many different things, and met so many amazing artists. Maybe I would have gotten here quicker. Hopefully the next generation of North Walian creatives will have a different story to tell - one of how visiting Take pART opened up new worlds to them!

Daniel Whelan, author

take pART' encourages creativity, builds confidence, and brings the community together. It plays a vital role in nurturing creative talent and inspiring future generations, helping to build a strong foundation for the arts within the local area. We value Venue Cymru's commitment to providing a space where local talent can thrive, reflecting their dedication to enriching the cultural landscape of the community.

Magic Light Productions

Mae'n ddigwyddiad gweth chweil I ni fel Mudiad I fod yn rhan ohono er budd y Gymraeg ac edrychwn ymlaen I allu cymryd rhan eto yn 2026 gobeithio.

Urdd

Take pART is a joyous celebration of creativity, performance and storytelling that appeals to people of all ages and abilities. It is tremendously popular and enthusiastically appreciated by the local community. Going to and participating in Take pART is a highlight of my year.

Harry Venning, Cartoonist

Take pART plays a vital role in promoting access to the arts for young people and families across the region. Its reach, impact, and the high standard of its programming make it a standout cultural event.

Team CIRQUE



Llun gan Paul Sampson

## 3. Python ar y Prom

Bu i ni lansio ymgyrch i godi cerflun o Terry Jones ym mro ei febyd ym Mae Colwyn, gan gyrraedd y targed o £120,000 mewn llai na chwe mis!

Fe lansiodd Michael Palin a Terry Gilliam ymgyrch GoFundMe Python on the Prom ar 5 Medi ar ran Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy a phlant Terry, Sally a Bill, wrth iddynt ymweld â'r dref i gyhoeddi cynlluniau i godi cerflun efydd o'u cyfaill a'u cyd-aelod o Monty Python ar y promenâd.

Cyfrannodd Suzy Eddie Izzard, un o gefnogwyr Monty Python ers peth amser, rodd o £6,000, a aeth â'r apêl heibio'r cyfanswm o £120,000.

Fe wnaethom gomisiynu'r artist o Landudno, Nick Elphick, i ddylunio'r cerflun ac mae o wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cerflun yr un ffunud â Terry, wrth i'r rhoddion ddod i mewn. Rŵan bod y cyllid wedi'i gadarnhau, bydd Nick yn dechrau gweithio ar ei ddyluniad terfynol. Er bod ystum y cerflun yn gyfrinach ar hyn o bryd, bydd tîm yr ymgyrch yn gwneud cyhoeddiad arbennig cyn hir, a gobeithir y bydd y cerflun yn cael ei ddadorchuddio yn ystod gwanwyn 2026.







Meddai Sally Jones, merch Terry, sy'n arwain ymgyrch codi arian Python On The Prom gyda'i brawd Bill ac Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy, gyda chefnogaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: "Rydw i wrth fy modd ein bod wedi cyrraedd ein targed a hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi rhoi rhodd neu sydd wedi prynu crys-t i gefnogi'r ymgyrch. Mae rhoddion wedi dod i mewn o bob cwr o'r byd ac mae pawb wedi bod mor arbennig o gadarnhaol am greu cerflun o Dad. Rydw i'n siŵr y byddai wedi bod wrth ei fodd gyda'r ymateb, fel minnau.

Rydym wedi codi mwy na digon i dalu am bob agwedd ar godi cerflun o Dad, ond dydyn ni ddim am roi'r gorau iddi, byddem wrth ein boddau pe bai pobl yn parhau i gyfrannu, ac o hyn ymlaen, caiff yr holl roddion eu rhannu rhwng Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy a The National Brain Appeal." Mae cyfanswm yr apêl bellach yn £127,989, sy'n cynnwys rhoddion, elw o docynnau dangosiad ffilm The Holy Grail, elw o docynnau arddangosfa archif Terry Jones yn Oriel Colwyn a gwerthiant nwyddau ar-lein a thrwy swyddfa docynnau Venue Cymru a Theatr Colwyn.

## 4. Grant Cronfa Addysg Thomas Howell

Cafwyd grant addysg o £5,000 drwy gronfa Thomas Howell a ganiataodd i Shirley Williams, Swyddog Fusion Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gynnal gweithdai Straeon o'r Archif mewn ysgolion ar hyd a lled y sir.

Arweiniodd y storïwr Manon Prysor sesiynau 'Stori Deganau Conwy' yn **Ysgol Bro Gwydir, Ysgol Llanddoged, Ysgol Cynfran, Ysgol Ysbyty Ifan, Ysgol y Plas Llanelian, Ysgol Awel y Mynydd ac Ysgol Eglwysbach.**







Arweiniodd y storïwr Jerry Bone sesiynau ar ‘Yr Ail Ryfel Byd’ yn **Ysgol San Sior, Ysgol Pencae, Ysgol Dolwyddelan, Ysgol Pant y Rhedyn, Ysgol Hen Golwyn ac Ysgol Tudno.**

Bu i blant **Ysgol Cynfran ac Ysgol Bendigaid William Davies** fwynhau sesiynau ‘Troseddau a Chosbau Oes Fictoria’ dan arweiniad Manon Prysor.







Aeth Lorraine Lister i **Ysgol Tudno ac Ysgol Bendigaid** William Davies i gynnal sesiwn ar y ‘Swffragetiaid’.







Bu i ddisgyblion **Ysgol Capelulo, Ysgol Pencae, Ysgol Bendigaid William Davies, Ysgol Deganwy, Ysgol y Plas, Ysgol Glan Morfa ac Ysgol Dyffryn yr Enfys** fwynhau sesiynau ‘Ysgol yn Oes Fictoria’ dan arweiniad Manon Prysor.





## 5. Serameg er Lles



Defnyddiwyd grant o £6,150 gan gronfa Awdurdod Lleol Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer prosiectau a gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar awtistiaeth, i alluogi Shirley Williams, Swyddog Fusion, i gynnal cyfres o weithdai serameg i bobl ag awtistiaeth.

Cyflogwyd Pea Restall, crochenydd o fri, i arwain y gweithdai yn The Troop Café, Llandudno, yr Uned Arbennig yn Ysgol Aberconwy, y Peculiar Gallery yn Abergele ac yn y Gwasanaethau Oedolion a Chymuned Integredig yn Abergele.

Roedd yr holl gyfranogwyr yn gallu mwynhau'r buddion iechyd meddwl a ddaw drwy weithio gyda chlai, sy'n gallu gwreiddio, tawelu a sefydlogi emosiynau'r artist. Mae gweithio gyda chlai hefyd yn lleihau cortisol ac yn defnyddio'r cyhyrau, sgiliau echddygol manwl a'r dychymyg!





Defnyddiodd Shirley Williams grant Datblygu Lleol dan arweiniad y Gymuned o £7,000 i gynnal mwy o weithdai serameg gyda saith grŵp lleol. Sef: *Grŵp Cam-drin Domestig Aberconwy yng Nghyfforddd Llandudno; Canolfan Dysgu Creadigol ar gyfer Oedolion gydag Anawsterau Dysgu yng Nghanolfan Rivieries, Llandudno; cleifion preswyl Uned Atgyfeirio Disgyblion Canolfan Addysg Nant-y-Bryniau, Abergele; Grwpiau Adferiad yng nghaffi Troop, Llandudno; Cyswllt Conwy ar gyfer Anableddau Dysgu ym Mae Colwyn a disgyblion Ysgol Gynradd Bro Cernyw, Llangernyw.*

Unwaith eto roedd y sesiynau, dan arweiniad Pea Restall, yn llwyddiant ysgubol. Roedd yr adborth yn amrywio o 'Roedd y cwrs yn wych… gadawodd bawb wedi mwynhau'r elfen gymdeithasol a theimlo eu bod wedi cyflawni darnau gwych o serameg' i '… roedden nhw'n ddiolchgar iawn i chi am eich amynedd, caredigrwydd a'ch arweiniad. Roedd y ddau ddiwrnod wir yn brofiad cadarnhaol iawn a fydd yn cael ei drysori – diolch.'





## 6. Cyllid CultureStep

Cafwyd £1,500 o gyllid CultureStep, drwy Celfyddydau a Busnes Cymru, i gynnal cyrsiau celf i 84 o blant mewn tair ysgol wahanol.

Cynhaliodd yr artist Wendy Couling weithdy ar y Llychlynwyr yn **Ysgol Cerrigydrudion**, ar y gofod yn **Ysgol Llanfairtalhaiarn** ac ar gynefin gyda disgyblion **Ysgol Pentrefoelas**.

Bu i Fusion gwrdd â chost y tystysgrifau Gwobr Celfyddydau a roddwyd i'r holl blant a gymerodd ran.







## 7. Gŵyl Teuluoedd Creadigol

Dyfarnodd Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy £6,100 i Venue Cymru ei rannu rhwng Cymerwch Ran 2025 a Gŵyl Teuluoedd Creadigol a gynhaliwyd fis Hydref 2025. Yn ystod hanner tymor cynhaliwyd swp o weithgareddau i blant a phobl ifanc, o weithdai gwneud pypedau i ddarlunio, o sesiynau bît-bocsio i sesiynau clocsio.













## 8. Canu ac Ioga

Dyfarnwyd £2,000 i Venue Cymru ar gyfer prosiect peilot 'Canu ac Ioga', côr canu ac ioga cymunedol.



Cynhaliwyd sesiynau yn y theatr ym Mae Colwyn ac ym Mhorth Eirias dan arweiniad Manon Llwyd, Arweinydd a Cherddor, a Leisa Mererid, Ymarferydd Ioga ac Ymwybyddiaeth Ofalgar.




Roedd y sesiynau yn rhad ac am ddim ac yn ceisio dod â dull newydd i ganu cymunedol, drwy gyfuno buddion trawsnewidiol ioga gyda llawenydd cerddoriaeth – gan greu profiad unigryw sy'n codi calon rhywun.





## 9. Cronfa Grantiau Bach

Sian Young, Swyddog Datblygu Celfyddydau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n darparu gwasanaethau gweinyddol ar gyfer y cynllun grant hwn.
O ganlyniad i haelioni'r cyhoedd, rydym wedi gallu parhau ein cronfa grantiau bach i gefnogi ystod o brosiectau'r celfyddydau creadigol yn ein cymunedau.
Eleni dyfarnwyd grantiau o £1,000 i'r canlynol: ***Côr Meibion Llangwm*** ar gyfer eu cyngerdd gyda Chôr Meibion gwadd. Fis Medi 2024 teithiodd côr Sangerrunde Mittich o Bafaria yn ne'r Almaen i berfformio gyda ***Chôr Meibion Llangwm*** yng Ngherrigydrudion.

*Defnyddiodd **Côr Alaw**, côr leisiau cymysg o Fae Colwyn, eu grant i ddathlu pen-blwydd y côr yn 15 oed.* Bu iddyn nhw berfformio 'Teilwng yw'r Oen' – cyfansoddiad roc o Messiah gan Handel. Sefydlwyd y côr i ddathlu pen-blwydd Ysgol Bod Alaw yn 60 oed, ac mae'n cynnwys gyn-ddisgyblion, rhieni, staff a

chyfeillion yr ysgol dan arweiniad Mr Dilwyn Price. Roedd hynny'n ôl yn 2009, ac ar ôl mwynhau'r cyngerdd penderfynwyd parhau â'r côr. Ers hynny maen nhw wedi perfformio ar hyd a lled y gogledd a chystadlu mewn Eisteddfodau.

Cynhaliwyd Ysgol Gelf Haf yn yr **Academi Gelf Frenhinol**, Conwy, gyda chymorth Grant Bach. Dros chwe sesiwn cafodd y plant 7-12 oed gyfle i archwilio gyda darlunio, celf ginetig, argraffu cyanoteip, modelu 3D, mosaig a chlai.

Gellir lawrlwytho ffurflenni cais yma Grantiau Bach | Ymddiriedolaeth Celf Conwy ac argymhellir yn gryf bod partïon â diddordeb yn trafod eu cais cyn ei gyflwyno drwy ffonio Sian ar 01492 575572 neu e-bostio celf@conwy.gov.uk.









## 10. Amdani! Conwy

Mae cyllid Spirit of 2012 bellach wedi dod i ben. Roedd y prosiect, a oedd yn bartneriaeth gyda Gwasanaethau Gwirfoddol Cymunedol Conwy (CGGC) a Chelfyddydau Anabledd Cymru, yn arloesi gyda dulliau cynhwysol o wirfoddoli. Cafodd cyfanswm o 80 o wirfoddolwyr eu recriwtio dros y ddwy flynedd ac roedd yr adborth gan westeiwyr a gwirfoddolwyr yn hynod o gadarnhaol.

'Mae gwirfoddoli'n wych. Rydych yn dysgu llawer o bethau ac mae'n cynnal eich cymhelliant o hyd. Mae holl staff Amdani yn dda oherwydd dydyn nhw byth yn eich siomi nac yn eich gadael chi allan – dwi'n gwybod ei bod hi'n anodd am wahanol resymau ond un o rannau pwysicaf eich bywyd yw annibyniaeth.' Gwirfoddolwr Amdani! Conwy






Cyfrannodd Ymddiriedolaeth Celf Conwy ychydig dan £1000 at y prosiect a oedd yn cefnogi gweithgareddau marchnata i recriwtio ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect yn cael eu hystyried ac mae prosiectau gwirfoddoli cynhwysol yn cael eu harchwilio gyda Gwasanaeth Gwirfoddol Cymunedol Conwy. Gellir gweld ffilm ddylanwadol y prosiect yma:

Gwirfoddolwyr Amdani! Conwy (Saesneg)

## 11. Rhoddion

Rydym ni'n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi i'r elusen eleni. Cafwyd £11042.98 o incwm rhoddion cyffredinol a rhoddwyd £110,382.00 i gronfeydd cyfyngedig, gwelwch y crynodeb isod:

| **RHODDION CYFFREDINOL** | |
|---|---|
| Casgliadau bwced cyffredinol / Rhodion | £ 2158.86 |
| Rhoddion blynyddol CAT o'r Swyddfa Docynnau | £ 8884.12 |
| **RHODDION CYFYNGEDIG** | |
| Casgliadau bwced Cymerwch Ran | £ 185.99 |
| Incwm o docynnau Cymerwch Ran 2025 | £ 5671.81 |
| Ymgyrch Seti Theatr Colwyn | £ 300.00 |
| Prosiect Python ar y Prom | £ 104224.20 |

Amcangyfrifir bod Cais Rhodd Cymorth ar gyfer y rhoddion a dderbyniwyd yn 2024-2025 yn oddeutu £1,630.61. Mae'r hawliad ar gyfer 24/25 yn y broses o gael ei hawlio a'i gymeradwyo gan Gyllid a Thollau EF.

## 12. Cyfrifon

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Conwy Arts Trust 31/03/2024 | | |
| | Restricted Funds | Non Restricted | Totals |
| **Bal b/f** | **46,099.53** | **18,058.96** | **64,158.49** |
| Income | 141,773.56 | 6,866.80 | 148,640.36 |
| Expenditure | -44,984.75 | -2,851.92 | -47,836.67 |
| Transfer between funds | 2,300.35 | -2,300.35 | 0.00 |
| **Balance Available** | **145,188.69** | **19,773.49** | **164,962.18** |
| | Represented By :- | **Bank Balance** | -140,816.14 |
| | | **Creditor invoices** | 1,833.37 |
| | | **Sales income from VC** | -6,059.55 |
| | | **Gift aid 2024-25** | -1,593.89 |
| | | **Donations** | -17,450.97 |
| | | **Grant** | -375.00 |
| | | **Spnsorship** | -500.00 |
| | | Year End Balance | **-164,962.18** |
| **Restricted Funds** | | | |
| | | **Theatr Colwyn Project** | |
| | **Bal b/f** | **3,597.21** | |
| | Income | - | |
| | Expenditure | - | |
| | **Balance Available** | **3,597.21** | |
| | | **Creu** | |
| | **Bal b/f** | **7,569.65** | |
| | Income | - | |
| | Expenditure | - 6,822.07 | |
| | Transfer funds | - | |
| | **Balance Available** | **747.58** | |
| | | **Create 2** | |
| | **Bal b/f** | **2,000.00** | |
| | Income | - | |
| | Expenditure | - 1,970.38 | |
| | Transfer funds | - | |
| | **Balance Available** | **29.62** | |
| | | **Textiles Project - Ashley Foundation** | |
| | **Bal b/f** | **11.80** | |
| | Income | - | |
| | Expenditure | - | |
| | Transfer funds | - 11.80 | |
| | **Balance Available** | **-** | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Winter Light Project** | | | |
| | | **Bal b/f** | | **1,657.44** | | | |
| | | Income | | - | | | |
| | | Expenditure | | - 1,657.44 | | | |
| | | **Balance Available** | | **-** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | **UK SPF Ceramics Project** | | | |
| | | **Bal b/f** | | **-** | | | |
| | | Income | | 7,000.00 | | | |
| | | Expenditure | | - 7,000.00 | | | |
| | | **Balance Available** | | **-** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | **Small Arts Grants** | | | |
| | | **Bal b/f** | | **649.65** | | | |
| | | Income | | | | | |
| | | Expenditure | | - 2,100.00 | | | |
| | | Transfer funds | | 2,300.35 | | | |
| | | **Balance Available** | | **850.00** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | **VC / TC Restricted** | | | |
| | | **Bal b/f** | | **17,862.82** | | | |
| | | Income | | 6,301.05 | | | |
| | | Expenditure | | - 824.04 | | | |
| | | **Balance Available** | | **23,339.83** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | **Take pART** | | | |
| | | **Bal b/f** | | **5,275.96** | | | |
| | | Income | | 5,904.30 | | | |
| | | Expenditure | | - 5,275.96 | | | |
| | | Transfer funds | | 11.80 | | | |
| | | **Balance Available** | | **5,916.10** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | **Clocaenog - Stories from Archives** | | | |
| | | **Bal b/f** | | **1,500.00** | | | |
| | | Income | | 1,000.00 | | | |
| | | Expenditure | | - 600.00 | | | |
| | | **Balance Available** | | **1,900.00** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | **Python on the Prom** | | | |
| | | **Bal b/f** | | **-** | | | |
| | | Income | | 119,268.21 | | | |
| | | Expenditure | | - 12,484.86 | | | |
| | | **Balance Available** | | **106,783.35** | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | **Theatr Colwyn Seat Refurbishment** | | | |
| | | **Bal b/f** | | **-** | | | |
| | | Income | | 300.00 | | | |
| | | Expenditure | | - | | | |
| | | **Balance Available** | | **300.00** | | | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| | **Culture Step - Stories from the Archives** | |
| **Bal b/f** | - | |
| Income | 1,500.00 | |
| Expenditure | - 1,500.00 | |
| **Balance Available** | - | |
| | | |
| | **Thomas Howell Education Fund** | |
| **Bal b/f** | **3,750.00** | |
| Income | 500.00 | |
| Expenditure | - 4,250.00 | |
| **Balance Available** | - | |
| | | |
| | **ACW Young Creatives** | |
| **Bal b/f** | **500.00** | |
| Income | - | |
| Expenditure | - 500.00 | |
| Transfer funds | - | |
| **Balance Available** | - | |
| | | |
| | **Ty Cerdd** | |
| **Bal b/f** | **1,725.00** | |
| Income | - | |
| Expenditure | - | |
| **Balance Available** | **1,725.00** | |

## 13.Diolchiadau

Hoffai Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy ddiolch i'r gwirfoddolwyr sy'n Aelodau o'r Bwrdd am eu cefnogaeth barhaus. Yn 2024/25 gwasanaethodd y bobl ganlynol fel Aelodau o'r Bwrdd ar gyfer Ymddiriedolaeth Celfyddydau Conwy: Dilwyn Price; Michael Tree; Don Milne; Sarah Ecob; Joann Rae; Kristen Gallagher; y Cyng. Gwennol Ellis; Gareth Leech a Helen Goddard. I Lorraine Whalley a oedd yn cymryd ein cofnodion (dim pleidlais) a Debra Jones, aelod dibleidlais sy'n gyfrifol am y cyfrifon.

Diolch i'n Noddwr Rhys Meirion am ei gefnogaeth i'r elusen. Hoffem estyn ein diolch i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Venue Cymru am eu cymorth gweinyddol, ariannol a'u cefnogaeth i'r prosiect gydol y flwyddyn, ac i'n Harchwiliwr Allanol, Sandra Forrest.

Yn olaf, diolch enfawr i bawb sydd wedi ein cefnogi gyda rhoddion ariannol, wedi gweithio gyda ni ar ein prosiectau neu fod yn un o'n cyfranogwyr gwych niferus.